Bydd tymor 2022 yn cael ei gofio am rai llwyddiannau unigol hynod ym Mhencampwriaeth y Siroedd, gyda Sam Northeast yn cyflawni'r sgôr unigol uchaf erioed i Forgannwg mewn gêm dosbarth cyntaf, sef cyfanswm anferth o 410\* yn erbyn Swydd Gaerfyr ar Faes Uptonsteel, a David Lloyd yn taro'r cyfanswm uchaf erioed gan Gymro pan sgoriodd 313\* yn erbyn Swydd Derby yng Ngerddi Sophia gan guro'r 309\*a sgoriwyd gan Steve James.

Mae recriwtio craff gan y Cyfarwyddwr Criced Mark Wallace dros y blynyddoedd diwethaf wedi cryfhau ac ymestyn ein rhestr fatio i'r fath raddau fel bod gan wyth chwaraewr gyfartaledd batïo o dros 40 ym Mhencampwriaeth y Siroedd yn 2022.

Bu'r effaith a gafodd Sam Northeast yn enwedig yn enfawr. Mae wedi dod i'r amlwg fel chwaraewr rhagorol ym Mhencampwriaeth y Siroedd ers nifer o flynyddoedd, ac roeddem wrth ein boddau pan ymunodd â ni er gwaethaf ymdrechion nifer o Siroedd eraill i'w arwyddo. Ef oedd asgwrn cefn ein rhestr fatio, gan sgorio bron 1,200 o rediadau ar gyfartaledd o 60, er na ddylid anghofio ymdrechion Eddie Byrom chwaith. Sgoriodd Eddie bron i 600 o rediadau ar gyfartaledd o ddim ond ychydig yn llai na 50, ac oni bai am anaf a'i rhwystrodd rhag chwarae am chwe wythnos gyntaf y tymor, byddai wedi dod yn agos at gyflawni'r gamp o sgorio 1,000 o rediadau mewn tymor yn y Bencampwriaeth.

Roedd colli Marnus Labuschagne i chwarae gemau rhyngwladol yn 2022 yn debygol o adael blwch mawr iawn o ran ein hadnoddau batïo, ond camodd y bytholwyrdd Colin Ingram i'r adwy, gan daro 3 canred mewn pum gêm ar gyfartaledd o fwy na 60. Roedd yr aelodau wrth eu boddau'n gweld ein chwaraewr Rhestr A gorau erioed, o bosib, yn dychwelyd i chwarae criced Dosbarth Cyntaf ar ôl pedair blynedd, ac am ei fod wedi symud yn barhaol i Gaerdydd, bydd yn parhau i fod yn ddylanwad poblogaidd a chadarnhaol iawn, ar y cae ac oddi arno, yn 2023.

Gyda chalendr rhyngwladol llawn dop, a rhaglen gemau domestig T20 byd-eang gynyddol brysur, mae'r dasg o ddenu'r chwaraewyr tramor gorau am dymor cyfan bellach bron yn amhosibl, ond rydym yn benderfynol o barhau i gyflogi'r chwaraewyr gorau posib sydd ar gael.

Roedd ymadawiad Colin i Uwchgynghrair y Caribî yn golygu bod angen trydydd batiwr tramor amom ac roeddem yn ddigon ffodus i gyflogi Shubman Gill. Yn ystod y cyfnod byr y bu gyda'r Clwb roedd hi'n amlwg bod y batiwr gwyd diweddaraf o India yn mynd i fod yn chwaraewr o safon byd-eang. Yn dilyn ei gyfnod yng Nghaerdydd, Shubman erbyn hyn yw'r chwaraeaf ifancaf ond un erioed i sgorio 1,000 o rediadau mewn gemau Rhyngwladol Undydd.

Cafodd ein bowlwyr eu harwain unwaith eto gan y chwaraewr campus Michel Hogan. Michael a gymerodd y mwyaf o wicedi inni, a hynny yn ei Flwyddyn Dysteb. Mi fydd hi'n od gweld Hoges yn chwarae yn ein herbyn yr haf nesaf, ond roedd y cyfle i ddechrau ei yrfa hyfforddi yn ogystal â chwarae rhywfaint o griced i Swydd Gaint yn rhan allweddol o'i benderfyniad i ohirio ei ymddediad, ac ymestyn ei yrfa dosbarth cyntaf.

**Glamorgan County Cricket Club Limited**  
**Rhif Cofrestredig: IP30396R**  
**Adroddiad y Prif Weithredwr**

Mae ymdrechion diflino Michael dros Forgannwg dros y ddegawd ddiwethaf wedi bod yn anhygoel ac maent wedi'u gwerthfawrogi gan yr aelodau a'r cefnogwyr fel ei gilydd. Bydd colled fawr ar ei ôl, am ei gampau ar y cae, ei bersonoliaeth hynaws, a'i gyfraniad enfawr i Glwb Criced Morgannwg oddi ar y cae. Mae'n llwyr haeddu cael ei osod yn Oriel Enwogion y Clwb ac rydym yn dymuno'r gorau iddo ef a'i deulu yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â Hogan, parhaodd Michael Nesar i greu argraff dda ar bawb gyda'i ymdrechion brwdfrydig a'i sgiliau penigamp. Rydym bob amser yn debygol o golli Michael tua diwedd y tymor oherwydd ei ymrwymiad i Griced Queensland, ond mae ei egni, ei ymroddiad a'i frwdfrydedd dros y gêm yn hwb enfawr i'n tîm yn ystod y cyfnod y mae gyda ni. Roedd ar frig ein cyfartaleddau bowlio yn 2022 a bydd yn arwain ein bowlwyr yn 2023 os na fydd yn chwarae yng Ngemau'r Llundain.

Er inni ennill fwy o gemau nag y gwnaethom ers 2010, mi wnaethon ni fethu cael ein dyrchafu i Adran 1 o Bencampwriaeth y Siroedd o drwch blewyn. Bu dwy golled drom i Middlesex yn allweddol o ran sicrhau mai nhw gafodd eu dyrchafu i'r Adran Gyntaf, gyda Swydd Nottingham.

Yn sgil cyhoeddi Adolygiad Perfformiad Uchel yr ECB yn ystod 2022, bu llawer o ddadlau ynghylch lleihau nifer y gemau ym Mhencampwriaeth y Siroedd o 14 i 10. Cynhaliodd y Clwb nifer o Fforymau Aelodau i drafod y mater a rhoi adborth fel rhan o broses benderfynu'r Bwrdd. Cadarnhaodd y Bwrdd i'r ECB ein dymuniad i barhau gyda'r sefyllfa bresennol, a bydd 2023 yn parhau ar yr un fformat â 2022.

Daeth ein cyfnod fel deiliaid cwpan cystadleuaeth 50 pelawd Royal London i ben ar ôl methu â chymhwyso o drwch blewyn ar gyfer y rowndiau terfynol. Cafwyd dwy fuddugoliaeth gynnar yn y gystadleuaeth (gan gynnwys un yn erbyn Swydd Gaint a enillodd y gystadleuaeth yn y pen draw) ond yna collwyd pedair gwaith, cyn gorffen y gystadleuaeth yn gryf gyda buddugoliaeth yn erbyn Swydd Hampshire ac yna Swydd Gaerwrangon, oedd yn golygu ein bod o fewn un belen o gymhwyso.

Mae'r gystadleuaeth yn gyfle perffaith i roi llwyfan i chwaraewyr ifanc, a bachodd Tom Bevan ar y cyfle hwnnw. Cafwyd cipolwg ar ei dalent wrth iddo daro 134 oddi ar 103 pelen yn erbyn Swydd Hampshire yng Nghastell-nedd, a'r gobaith yw y bydd hyn yn ei ysbrydoli ef a chwaraewyr talentog ifanc eraill i ddechrau gyrfaedd llwyddiannus gyda'r Clwb.

Bu dychwelyd i chwarae yn Y Gnoll yn llwyddiant mawr, ac ar ran Clwb Criced Morgannwg hoffwn ddiolch i Glwb Criced Castell-nedd am eu cefnogaeth arbennig yn cynnal dwy gêm yng nghystadleuaeth Royal London. Rydym yn edrych ymlaen at ddychwelyd yn 2023 ar gyfer dwy gêm bwysig yn erbyn Swydd Durham a Swydd Warwick.

Bu cystadleuaeth y Vitality Blast yn 2022 yn un siomedig am inni fethu â chymhwyso ar gyfer rownd wyth olaf y gystadleuaeth am y pumed flwyddyn o'r bron. Sam Northeast oedd ein batiwr gorau a Michael Nesar ein bowliwr gorau ond mae angen inni wneud llawer o waith trwyddi draw i gystadlu am le yn rowndiau terfynol y gystadleuaeth. Fodd bynnag, mae ychwanegu'r chwaraewyr lleol, Jamie McIlroy, Tom Bevan ac Alex Horton i'r tîm T20 yn rhoi gobaith am berfformiadau gwell yn 2023.

Yn dilyn adolygiad o'r tymor, penderfynwyd penodi 'hyfforddwr pêl wen' i ganolbwyntio ar ofnyion ffurfiau byrrach y gêm, tra bod Matthew Maynard yn parhau i ganolbwyntio ar adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaeth gyda ffurf hirach y gamp.

**Glamorgan County Cricket Club Limited**  
**Rhif Cofrestredig: IP30396R**  
**Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cafodd yr Ail Dfwm dymor llwyddiannus arall gan ddod yn ail agos iawn i Swydd Efrog ym Mhencampwriaeth y Siroedd, ac mi enillon nhw gystadleuaeth 2<sup>o</sup> XI T20 yr ECB am yr eiddo mewn tair blynedd, gyda Tom Bevan yn sgorio canred campus yn y rownd derfynol. Roedd hi'n galondid gweld nifer o chwaraewyr ifanc lleol yn cael eu dewis i'r 2<sup>o</sup> XI yn ystod y tymor, gan gynnwys Tom Norton o Glwb Criced Y Fenni, sy'n 14 oed.

Ar ddiwedd pob tymor, mae hi bob amser yn anodd ffarwelio â chwaraewyr sydd wedi bod yn aelodau staff proffesiynol ac sydd wedi gwneud eu gorau glas dros y Clwb. Yn ogystal â Michael Hogan, hoffwn ddiolch i Ruaidhri Smith, Joe Cook, Lukas Carey, Tom Cullen a James Weighell am eu gwasanaeth i Glwb Criced Morgannwg, ac rydym yn dymuno'n dda iddynt yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Gan ein bod yn colli rhai bowlwyr sêm a chwaraewyr amryddawn profiadol, rydym yn croesawu wynebau newydd i'r Clwb, sef Zain-ul-Hassan, a wnaeth argraff dda yn ystod cyfnod prawf yn 2022, a Harry Podmore, sydd wedi bod ar fenthyg gyda Morgannwg yn y gorffennol. Mae Ben Kellaway a Ben Morris wedi graddio o'n Academi ac wedi ennill cytundebau chwaraewyr newydd, ac edrychwn ymlaen at ddilyn eu datblygiad fel chwaraewyr proffesiynol.

Mae'n dda gallu dweud bod pob un o'n timau llwybr criced, o'r tîm D13 i'r tîm D18, wedi cael tymor llwyddiannus. Ers cymryd awenau'r llwybr criced grwpiau oedran yn 2020, y 12 mis diwethaf oedd ein cylchred di-dor llawn cyntaf, a bu tymor 2022 yn well na'r disgwyl ar y cae. Ni ddylem fesur ein llwyddiant fel llwybr criced ar sail canlyniadau'n unig, ond maent yn rhoi syniad inni o sut hwyl rydym yn ei chael arni o'i gymharu ag eraill. Mae perfformiadau ein holl dimau'n dangos bod y gwaith cychwynnol wedi cael effaith positif uniongyrchol, ac mae'n rhoi hyder inni ein bod ar y trywydd iawn.

Curodd y tîm D13 Swydd Efrog, Cernyw, Dyfnaint a Swydd Gaerloyw a chafwyd buddugoliaeth dda dros Wlad yr Haf yng ngêm ola'r tymor. Roedd hwn yn ddiwedd glo gwych i dymor cyntaf y bechgyn, a enillodd 10 gêm, a cholli tair yn unig.

Llwyddodd ein timau D14 a D16 i gyrraedd rownd yr wyth olaf yn eu cystadlaethau ECB perthnasol, ond tîm y tymor oedd y tîm D18, a ragorodd yn y cystadlaethau pêl wen, gan gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth 50 pelawd D18 yr ECB, a dod yn enillwyr cyntaf Cwpan T20 D18 yr ECB.

Cafwyd rhai perfformiadau unigol rhagorol ym mhob tîm, gan gynnwys 13 canred gan y batwyr, a 7 bowliwr yn cipio pum wiced mewn battad. Yn bwysig, mae 14% o'n chwaraewyr llwybr criced yn dod o gymunedau amrywiol, gan gynnwys 5 allan o'r 19 o chwaraewyr yng ngharfan D13 Cymru, a 2 allan o'r 5 aelod o raglen yr Academi.

Mae'n drueni nad oedd Alex Horton yn gallu teithio i Awstralia gyda thîm D19 Lloegr, ond gyda phob tîm yn cyrraedd o leiaf rownd yr wyth olaf yng nghystadlaethau'r ECB, a thîm grŵp oedran yn ennill tîws am y tro cyntaf yn ein hanes, mae dyfodol y Clwb yn edrych yn addawol.

Roeddwn yn hynod falch bod Aimee Rees wedi dechrau ar ei gwaith fel ein Pennaeth Criced Menywod a Merched yn 2022. Mae Aimee yn wybodus iawn am griced menywod a merched yng Nghymru ac rwy'n gwbl ffyddiog y bydd hi'n gwneud gwaith gwych yn hyrwyddo'r gêm i ferched yng Nghymru. Mae hi wedi bod wrth y llyw yn ystod tymor calonogol i'n rhaglen Menywod a Merched, yn enwedig y grwpiau oedran iau, ac mae'n ymfalchïo yn y ffaith bod 11% o'r chwaraewyr ar y llwybr criced Menywod a Merched yn dod o gefndir amrywiol.

**Glamorgan County Cricket Club Limited**  
**Rhif Cofrestredig: IP30396R**  
**Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cafodd naw chwaraewr o Gymru eu dewis ar gyfer Rhaglen Chwaraewyr Addawol Western Storm, gyda Libby Thomas wedi'i dewis ar gyfer Academi'r Western Storm, Sara Phillips ar gyfer Academi Central Sparks, a Sophia Smale ac Alex Griffiths ar gyfer carfan hŷn Western Storm.

Roedd Sophia Smale a Seren Smale yn aelodau pwysig o garfan D19 Lloegr a gyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth Cwpan y Byd Menywod D19 cyntaf yr ICC yn Ne Affrica. Mae Sophia yn droeithwr llaw chwith ac mi gipiodd 8 wiced yn ystod y gystadleuaeth, ac mi sgoriodd Seren Smale, sy'n wicedwr-batiwr, 121 o rediadau ar gyfartaledd o 31.25. Dylai Sophia a Seren fod yn falch o'u cyfraniad i'r twmnamaint am iddynt gynrychioli Cymru â balchder. Mae hwn yn gam pwysig arall er mwyn codi proffil gêm y merched yng Nghymru.

Bu ail flwyddyn cystadleuaeth y Can Pelen yn brofiad ysgytwol i'r Tân Cymreig, gyda'r tîm Dynion a'r tîm Merched fel ei gilydd yn perfformio'n wael ar y cae. Mae'n deg dweud nad yw'r gystadleuaeth wedi plesio'r rhan fwyaf o'r Aelodau, ond mae'n parhau i fod yn ffrwd refeniw bwysig, ac yn bwysicaf oll, mae'n gyfrwng i dyfu'r gêm yng Nghymru.

Gwerthwyd dros 360,000 o docynnau ar gyfer ein pedair gêm gartref yn 2022, gydag 18% ohonynt yn cael eu gwerthu i blant, 4% i gymunedau amrywiol, 29% i fenywod, a 55% i bobl dan 45 oed. Yn bwysig, gwerthwyd 64% o'r tocynnau i rai nad oeddent wedi ymweld â Gerddi Sophia o'r blaen. Mae hyn yn dangos bod criced yn denu cynulleidfa newydd ac yn cynnig y posibilrwydd o greu ffurfiau eraill o'r gêm yn y dyfodol.

Yn dilyn adolygiad diwedd tymor, cadarnhaodd Bwrdd y Tân Cymreig y bydd yr arwr o Awstralia, Mike Hussey yn cymryd lle Gary Kirsten fel y prif hyfforddwr, gyda'r tîm hyfforddi a chefnogi Merched yn aros yr un fath ag yn 2022. Mae Mike wrthi'n gweithio'n agos â'r Rheolwr Criced, Mark Wallace, yn dewis tîm dynion fydd yn llawer mwy cystadleuol yn 2023.

Wrth inni aros am argymhellion adolygiad y Comisiwn Annibynnol Dros Degwch ym Myd Criced (ICEC), rwy'n falch o ddweud bod ein rhaglen gymunedol yn parhau i fynd o nerth i nerth dan arweiniad arbennig Mark Frost.

Mae patrwm yr archebion o ran gwaith mewnol/allanol gydag ysgolion wedi bod yn galonogol iawn am fod nifer o wahanol fathau o ysgolion clwstwr, megis ysgolion ffydd, yn cynhesu at y syniad o dwmnamaint lleol. Cynhaliwyd Her Glan-yr-afon yn yr Ysgol Dan Do ym mis Hydref/Tachwedd, gan ymgysylltu â thua 650 o blant ym Mlynnyddoedd 4, 5 a 6 o Ysgolion Cynradd Trelluest, Severn, Kitchener a Pharc Ninian. Mae demograffeg y digwyddiad hwn yn golygu ein bod wedi cyrraedd ysgolion gyda lefelau uchel iawn o amrywiaeth ethnig.

Mae mentrau newydd yn cynnwys Tlws Turnbull, sy'n gweithio gyda grŵp o chwe Ysgol Gynradd Gatholig yng Nghaerdydd, yn cynnwys tua 500 o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 4, 5, a 6. Mae yna gydweithio tebyg hefyd ag Ysgol Fwslemaidd Caerdydd. Menter newydd arall yw Cwpan Sant Ioan, sy'n gweithio gyda chwech o Ysgolion Cynradd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd, gan gynnwys tua 500 o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 4, 5 a 6.

Yn gyfan gwbl, mi fydd y rhaglen gymunedol wedi cyrraedd 91 o ysgolion yn ardal Caerdydd yn 2022, yn sgil ymweliadau mewnol/allanol neu ymweliadau ar ddiwrnod gêm, a'r cynnig 'tocyn am ddim'. Yn 2019 roedd y ffigur hwn yn 39, a'r rhan fwyaf o'r rheiny'n ymweliadau â Gerddi Sophia. O ganlyniad, mae'r gweithlu teithiau stadiwm wedi'i ymestyn i ymdopi â'r galw. Yn 2022 croesawyd 13,700 o ddisgyblion i Erddi Sophia.



**Glamorgan County Cricket Club Limited**  
**Rhif Cofrestredig: IP30396R**  
**Adroddiad y Prif Weithredwr**

Ar ben hynny, mae dylanwad ein swyddog gwaith allanol newydd yn golygu bod bron i 70% o ysgolion â chysylltiad â Chriced Morgannwg yng Nghaerdydd erbyn hyn.

**Sefyllfa Ariannol**

Mae'r Clwb wedi dychwelyd i ryw lefel o normalrwydd ariannol yn 2022 yn dilyn dwy flynedd gythryblus oherwydd Covid-19. Fel y nodwyd yn adroddiad ariannol y llynedd, derbyniodd y Clwb grant o £710,000 gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr i wneud iawn am effaith y pandemig yn ystod 2021. Yn sgil y modd y paratowyd cyfrifon y flwyddyn flaenorol, mae'r arian hwn, a dderbyniwyd yn Chwefror 2022, wedi'i gydnabod yn ystod blwyddyn ariannol 2022. Gan gynnwys y grant hwn, gall y Clwb ddatgan gwarged gweithredol o £52,925 yn 2022, yn dilyn gwarged o £441,166 yn 2021.

Roedd cynllunio ar gyfer 2022 yn heriol, yn sgil yr ansicrwydd ynghylch sut y byddai'r gweithgarwch yn adfer o Covid-19. Roedd y flwyddyn yn debygol o fod yn un anodd hefyd am mai dim ond un cystadleuaeth T20 ryngwladol y gallai'r Clwb ei chynnal, ochr yn ochr â'r Can Pelen. Mae dyfarniad presennol y Clwb o ran gemau mawr (2020 – 2024) yn cynnwys rhai blynyddoedd gydag un gêm fawr ac eraill gyda dwy. Hefyd mae cystadlaethau T20 rhyngwladol yn dod â llai o enillion na Gemau Undydd Rhyngwladol. Ond serch yr heriau hyn, roedd y Clwb â'i fryd ar gynyddu ei fuddsoddiad mewn nifer o feysydd.

Mae'r buddsoddiad mewn criced yn ystod 2022 wedi codi i £3,031,407 (2021: £2,566,019). Dyma'r lefel uchaf erioed i'r Clwb ac mae'n adlewyrchu pa mor benderfynol yw'r Bwrdd o gael pethau'n iawn ar y cae. Mae'r Clwb hefyd wedi parhau i wella'r seilwaith ffisegol, gan fuddsoddi £1,734,318 drwy gyfuniad o waith cynnal a chadw hirdymor a buddsoddiad cyfalaf yn 2022, gan efelychu swm tebyg yn 2021.

Ar ôl cynnwys yr holl ffynonellau cymorth gwahanol, roedd y referniw cyffredinol ar gyfer 2022 yn £9,231,584 o'i gymharu ag £8,090,422 yn 2021 a £4,684,898 yn 2020.

Cynyddodd y referniw o du'r aelodau, deiliaid bocs a noddwyr yn ystod y flwyddyn, yn ôl i lefelau a welwyd ddiwethaf yn 2019. Mae'r Clwb yn buddsoddi mwy yn ei ddim masnachol ac mi fydd yn anelu at wella'r ffrydiau referniw amrywiol hyn dros y 4 – 5 mlynedd nesaf. Hoffwn ddiolch i Huw Warren, ein Pennaeth Masnachol blaenorol am ei gyfraniad i'r Clwb, a chroesawu Ed Rice o Glwb Pêl-droed Lerpwl i gymryd ei le.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn referniw gatiâu'r Can Pelen a'r gemau domestig ar ôl codi cyfyngiadau Covid-19. Gwnaed elw o bron i £1m o'r gemau T20 rhyngwladol a'r Can Pelen, ar ben yr arian hysbysebu a grantiau cysylltiedig a dderbyniwyd.

Yn fwyaf arwyddocaol, mae'r busnes cynadledda a digwyddiadau yn gwneud elw unwaith eto erbyn hyn. Mae'r Clwb yn hynod o ddiolchgar i Gronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru am y cymorth a dderbyniwyd yn ystod y pandemig, a ddefnyddiwyd i gadw'r tîm craidd yn ei le.

Serch y pwysau o ran referniw, llwyddodd y Clwb i reoli ei gostau.

**Glamorgan County Cricket Club Limited**  
**Rhif Cofrestredig: IP30396R**  
**Adroddiad y Prif Weithredwr**

Mae'r Clwb unwaith eto wedi gallu gwneud defnydd o gyfleuster ariannu di-log yr ECB o £245,000 i osod seddi newydd yn lle'r hen rai yn y stadiwm, gyda'r olaf o'r rhain yn cael eu gosod ar hyn o bryd ar gyfer tymor 2023. Mae gwerth £560,000 o grantiau cynnal a chadw'r ECB ar gyfer 2023 a 2024 wedi'u dwyn ymlaen gan y Clwb i ychwanegu at grant cynnal a chadw blynyddol 2022 o £400,000, ac mae'r arian hwn wedi'i ddefnyddio i gwblhau'r rhan fwyaf o'r dasg o adnewyddu'r gwaith dur, a dechrau buddsoddi mewn toiledau newydd. O ganlyniad, mi fydd llai o fuddsoddiad cynnal a chadw a chyfalaf yn 2023 a 2024.

Mae sefyllfa ariannol y Clwb wedi aros yn gryf yn ystod y flwyddyn ond rhagwelir y bydd yn dechrau dirywio yn ystod 2023 a 2024. Mae'r ddyled net wedi gostwng ychydig yn ystod y flwyddyn, o £1.8m i £1.7m; canlyniad da o ystyried lefel y buddsoddiad cyfalaf a wnaed yn ystod y flwyddyn, ac yn sylweddol is na'r lefelau dyled a welwyd ar draws llawer o'r sector.

Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer 2023 yn parhau i fod yn gymharol bositif, ond mae'r Clwb yn ymwybodol iawn o'r heriau economaidd sylfaenol a fydd yn effeithio ar refeniw a chostau fel ei gilydd. Mae'r Clwb yn defnyddio lefelau cymharol isel o ynni, o'i gymharu â rhai yn y sector, ac ar ben hynny, mae'r pris wedi'i gapio tan fis Medi 2024, ond mae'n edrych ar opsiynau effeithlonrwydd ynni a all helpu pan ddaw'r cap ar y pris i ben.

O bersbectif strategol, mae'r pwyntiau a wnaed yn 2022 yn parhau i fod yn ddilys. Mae gan y Clwb nifer o amcanion sy'n greiddiol i'r cynllun ariannol. Yn gyntaf, rhaid inni wella'r criced, gan gynnwys y tîm, yr academi, y cyfleusterau, a mynediad i'r cyfleusterau ar gyfer y gymuned ehangach. Mae'r Clwb wedi ymrwmo i wella'r cyfleusterau, yng Ngerddi Sophia a lleoliadau eraill, yn enwedig yng Ngorllewin Cymru, ac mae'n anodd sicrhau cydbwysedd gyda gofynion mor uchel. Mae cynllun mawreddog yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i barhau i ddatblygu Gerddi Sophia, ac mae'r Clwb yn benderfynol o ddod o hyd i ateb i'r diffyg cyfleusterau dosbarth cyntaf cynaliadwy yng Ngorllewin Cymru. Hefyd, rhaid i'r Clwb wella'i gynaliadwyedd ariannol ei hun, a'i annibyniaeth gymharol o'r refeniw sy'n gysylltiedig â chriced. Er i'r Clwb lwyddo i adeiladu busnes cynadledda a digwyddiadau dros y 10 mlynedd diwethaf, cafodd Covid-19 effaith ddifrifol ar hwnnw ac mi fydd angen ffocws a buddsoddiad go iawn i'w ail-adeiladu dros y blynyddoedd nesaf.

Mae sefyllfa ariannol yr ECB wedi dod yn fwy cadarn yn ystod 2022 yn sgil ymestyn y contract Sky tan 2028 a chadarnhad o ffrydiau refeniw eraill yr ECB. Dylid cael eglurhad o strategaeth ariannol yr ECB a'r modd y dosbarthir yr arian ar draws y gêm yn ystod 2023, a fydd yn caniatáu i'r Clwb ymestyn ei gynllun ariannol ei hun hyd at 2028 a thu hwnt. Ymhellach i ffwrdd, mae pŵer ariannol India o fewn y gêm yn debygol o ddylanwadu'n drwm ar y darlun ariannol rhyngwladol, ac ni fydd modd i ninnau osgoi'r dylanwad hwnnw.

#### **Busnes Hyfyw**


Mae angen crebwyll i asesu p'un ai yw'r Clwb yn fusnes hyfyw ai peidio. Mae rhagolygon y Clwb yn dibynnu ar ei allu i ddenu criced rhyngwladol i'r stadiwm. Mae rhagolygon a rhagamcanion y Clwb yn rhoi ystyriaeth i'r criced rhyngwladol a ddyrannwyd, a newidiadau eraill posib o ran perfformiad masnachu. Mae'r rhagolygon hyn, gan gynnwys y risg difrifol ond credadwy o ddirywiad, yn dangos y dylai'r Clwb allu gweithredu o fewn lefel ei gyfleusterau presennol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad yr arwyddwyd y datganiadau hyn. Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y swyddogion ddisgwyliadau rhesymol bod gan y Clwb adnoddau digonol i barhau i fodoli fel clwb gweithredol yn y dyfodol rhagweladwy. Mae'r Clwb felly yn parhau i fabwysiadu sylfaen busnes hyfyw wrth baratoi ei ddatganiadau ariannol.

**Glamorgan County Cricket Club Limited**  
**Rhif Cofrestredig: IP30396R**  
**Adroddiad y Prif Weithredwr**

Yn olaf, hoffwn gofnodi fy niolch diffuant i Aelodau, Cadeirydd, a Bwrdd Clwb Criced Sirol Morgannwg am eu cefnogaeth yn ystod blwyddyn heriol iawn i mi'n bersonol. Mi fydd nifer o'r Aelodau'n gwybod imi gael diagnosis o ganser y coluddyn yn Ionawr 2022 a threuliais ran helaeth o'r flwyddyn yn cael triniaeth chemotherapi. Mae'r driniaeth yn parhau ac mae'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol rhagweladwy, ond rwy'n mwynhau bod yn ôl ger fy nesg yng Ngerddi Sophia.

Am bron i naw mis, mae Dan Cherry wedi camu i fyny o'i rôl fel Pennaeth Gweithrediadau ac wedi gwneud gwaith ardderchog yn arwain y sefydliad, ar y cyd â'r Cadeirydd Gareth Williams. Hoffwn gofnodi fy niolch arbennig iddyn nhw a gweddill staff Morgannwg, sydd wedi gwneud gwaith mor wych yn fy absenoldeb.

Gafodd yr adroddiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar 9fed Chwefror 2023 a'i arwyddo ar ei ran.



Hugh Morris  
Prif Weithredwr

**Glamorgan County Cricket Club Limited  
Statement of Board's Responsibilities**

The board is responsible for preparing the report and financial statements in accordance with applicable law and regulations.

The Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014 requires the board to prepare financial statements for each financial year which give a true and fair view of the state of affairs of the club and of the profit or loss of the club for that period. In preparing these financial statements, the board is required to:

- select suitable accounting policies and then apply them consistently;
- make judgements and estimates that are reasonable and prudent;
- state whether applicable UK Accounting Standards have been followed, subject to any material departures disclosed and explained in the financial statements;
- prepare the financial statements on the going concern basis unless it is inappropriate to presume that the company will continue in business.

The board is responsible for keeping adequate accounting records that are sufficient to show and explain the club's transactions and disclose with reasonable accuracy at any time the financial position of the club and to enable it to ensure that the financial statements comply with the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014. It is also responsible for safeguarding the assets of the club and hence for taking reasonable steps for the prevention and detection of fraud and other irregularities.

# ***Independent auditors' report to Glamorgan County Cricket Club Limited***

## **Report on the audit of the financial statements**

---

### **Opinion**

In our opinion, Glamorgan County Cricket Club Limited's club's financial statements (the "financial statements"):

- give a true and fair view of the state of the club's affairs as at 31 December 2022 and of the club's income and expenditure and cash flows for the year then ended;
- have been properly prepared in accordance with United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice (United Kingdom Accounting Standards, comprising FRS 102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland", and applicable law); and
- have been prepared in accordance with the requirements of the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014.

We have audited the financial statements, included within the Report and Financial Statements (the "Annual Report"), which comprise: the Statement of Financial Position as at 31 December 2022; the Income Statement, the Statement of Cash Flows and the Statement of Changes in Equity for the year then ended; and the notes to the financial statements, which include a description of the significant accounting policies.

---

### **Basis for opinion**

We conducted our audit in accordance with International Standards on Auditing (UK) ("ISAs (UK)") and applicable law. Our responsibilities under ISAs (UK) are further described in the Auditors' responsibilities for the audit of the financial statements section of our report. We believe that the audit evidence we have obtained is sufficient and appropriate to provide a basis for our opinion.

### **Independence**

We remained independent of the club in accordance with the ethical requirements that are relevant to our audit of the financial statements in the UK, which includes the FRC's Ethical Standard, and we have fulfilled our other ethical responsibilities in accordance with these requirements.

---

### **Conclusions relating to going concern**

Based on the work we have performed, we have not identified any material uncertainties relating to events or conditions that, individually or collectively, may cast significant doubt on the club's ability to continue as a going concern for a period of at least twelve months from the date on which the financial statements are authorised for issue.

In auditing the financial statements, we have concluded that the Board's use of the going concern basis of accounting in the preparation of the financial statements is appropriate.

However, because not all future events or conditions can be predicted, this conclusion is not a guarantee as to the club's ability to continue as a going concern.

Our responsibilities and the responsibilities of the Board with respect to going concern are described in the relevant sections of this report.

---

### **Reporting on other information**

The other information comprises all of the information in the Annual Report other than the financial statements and our auditors' report thereon. The Board is responsible for the other information. Our opinion on the financial statements does not cover the other information and, accordingly, we do not express an audit opinion or any form of assurance thereon.

# ***Independent auditors' report to Glamorgan County Cricket Club Limited***

In connection with our audit of the financial statements, our responsibility is to read the other information and, in doing so, consider whether the other information is materially inconsistent with the financial statements or our knowledge obtained in the audit, or otherwise appears to be materially misstated. If we identify an apparent material inconsistency or material misstatement, we are required to perform procedures to conclude whether there is a material misstatement of the financial statements or a material misstatement of the other information. If, based on the work we have performed, we conclude that there is a material misstatement of this other information, we are required to report that fact. We have nothing to report based on these responsibilities.

---

## **Responsibilities for the financial statements and the audit**

### ***Responsibilities of the Board for the financial statements***

As explained more fully in the Statement of Board's Responsibilities, the Board is responsible for the preparation of the financial statements in accordance with the applicable framework and for being satisfied that they give a true and fair view. The Board is also responsible for such internal control as they determine is necessary to enable the preparation of financial statements that are free from material misstatement, whether due to fraud or error.

In preparing the financial statements, the Board is responsible for assessing the club's ability to continue as a going concern, disclosing as applicable, matters related to going concern and using the going concern basis of accounting unless the Board either intends to liquidate the club or to cease operations, or have no realistic alternative but to do so.

### ***Auditors' responsibilities for the audit of the financial statements***

Our objectives are to obtain reasonable assurance about whether the financial statements as a whole are free from material misstatement, whether due to fraud or error, and to issue an auditors' report that includes our opinion. Reasonable assurance is a high level of assurance, but is not a guarantee that an audit conducted in accordance with ISAs (UK) will always detect a material misstatement when it exists. Misstatements can arise from fraud or error and are considered material if, individually or in the aggregate, they could reasonably be expected to influence the economic decisions of users taken on the basis of these financial statements.

Irregularities, including fraud, are instances of non-compliance with laws and regulations. We design procedures in line with our responsibilities, outlined above, to detect material misstatements in respect of irregularities, including fraud. The extent to which our procedures are capable of detecting irregularities, including fraud, is detailed below.

Based on our understanding of the club, we identified that the principal risks of non-compliance with laws and regulations related to breaches of health & safety and safeguarding, and we considered the extent to which non-compliance might have a material effect on the financial statements. We also considered those laws and regulations that have a direct impact on the financial statements such as the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014 and UK tax legislation. We evaluated management's incentives and opportunities for fraudulent manipulation of the financial statements (including the risk of override of controls), and determined that the principal risks were related to fraudulent transactions to overstate profits in order to meet the expectations of key stakeholders. Audit procedures performed included:

- Discussions with management, including consideration of known or suspected instances of non-compliance with laws and regulations and fraud;
- Reviewing Board minutes;
- Identifying and testing journal entries, in particular those having unusual account combinations; and
- Obtaining third party confirmations of all the club's banking and financing arrangements.

There are inherent limitations in the audit procedures described above. We are less likely to become aware of instances of non-compliance with laws and regulations that are not closely related to events and transactions reflected in the financial statements. Also, the risk of not detecting a material misstatement due to fraud is higher than the risk of not detecting one resulting from error, as fraud may involve deliberate concealment by, for example, forgery or intentional misrepresentations, or through collusion.

A further description of our responsibilities for the audit of the financial statements is located on the FRC's website at: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). This description forms part of our auditors' report.

# **Independent auditors' report to Glamorgan County Cricket Club Limited**

## *Use of this report*

This report, including the opinions, has been prepared for and only for the club as a body in accordance with Section 87 (2) of the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014 and for no other purpose. We do not, in giving these opinions, accept or assume responsibility for any other purpose or to any other person to whom this report is shown or into whose hands it may come save where expressly agreed by our prior consent in writing.

---

## **Other required reporting**

### **Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014 exception reporting**

Under the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014 we are required to report to you if, in our opinion:

- a satisfactory system of control over the club's transactions has not been maintained; or
- we have not received all the information and explanations we require for our audit; or
- proper books of account have not been kept by the club; or
- the club's financial statements are not in agreement with the books of account.

We have no exceptions to report arising from this responsibility.



PricewaterhouseCoopers LLP  
Chartered Accountants Statutory Auditors  
Cardiff

22 February 2023

**Glamorgan County Cricket Club Limited**  
**Income Statement**  
**for the year ended 31 December 2022**

	Notes	2022 £	2021 £
Turnover	3	9,231,584	8,090,422
Administrative expenses		(9,178,659)	(7,855,697)
Other operating income		-	206,441
<b>Operating profit</b>	4	<u>52,925</u>	<u>441,166</u>
Loss on revaluation of investments		-	(19,779)
Interest payable	5	(92,353)	(40,967)
<b>(Loss)/profit on ordinary activities before taxation</b>		<u>(39,428)</u>	<u>380,420</u>
Tax on (loss)/profit on ordinary activities	6	-	-
<b>(Loss)/profit for the financial year</b>		<u>(39,428)</u>	<u>380,420</u>

The club has no gains and losses other than those included in the results above, and therefore no separate Statement of Comprehensive Income has been presented.



**Glamorgan County Cricket Club Limited**  
**Statement of Cash Flows**  
**for the year ended 31 December 2022**


	<b>2022</b>	<b>2021</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>
<b>Operating activities</b>		
(Loss)/profit for the financial year	(39,428)	380,420
<b>Adjustments for:</b>		
Loss on revaluation of investments	-	19,779
Interest payable	92,353	40,967
Depreciation	903,825	742,111
Grant income released	(184,497)	(196,133)
Increase in stocks	(4,596)	(4,721)
Increase in debtors	(178,223)	(269,064)
Increase in creditors	444,281	4,473
	<u>1,033,715</u>	<u>717,832</u>
<b>Cash generated by operating activities</b>	<u>1,033,715</u>	<u>717,832</u>
<b>Investing activities</b>		
Payments to acquire tangible fixed assets	(949,019)	(981,794)
	<u>(949,019)</u>	<u>(981,794)</u>
<b>Cash used in investing activities</b>	<u>(949,019)</u>	<u>(981,794)</u>
<b>Financing activities</b>		
Proceeds from new loans	245,000	650,000
Grant funding received	123,000	-
Repayment of loans	(641,914)	(536,907)
New finance leases	-	193,577
Capital element of finance lease payments	(69,604)	(53,153)
Interest paid	(92,353)	(40,967)
	<u>(435,871)</u>	<u>212,550</u>
